

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Gwahoddiad i Dendro

a

Manyleb

**Dull Gweithredu sy'n cael ei Arwain gan Ddefnyddwyr i
Ddatblygu Safonau Data Gofal Cymdeithasol ac Achosion
Defnydd Rhannu Data yng Nghymru**

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

Cynnwys

- 1 Gwybodaeth Gyffredinol
 - 1.1 Gofal Cymdeithasol Cymru
 - 1.2 Proses Caffael
 - 1.3 Pwrpas y tendr hwn
 - 1.4 Cyllideb
 - 1.5 Hyd
 - 1.6 Monitro
 - 1.7 Ceisiadau ar y cyd neu gan gonsortia
 - 1.8 Dogfennau ategol
- 2 Amlinelliad o'r Prosiect
 - 2.1 Cyflwyniad
 - 2.2 Cefndir
 - 2.3 Perthynas â Gwaith Arall
 - 2.4 Nodau ac Amcanion
 - 2.5 Beth sydd ei angen / 'Y Gofynion' - Cam 1
 - 2.6 Beth sydd ei angen / 'Y Gofynion' - Cam 2
 - 2.7 Gofynion Digidol
 - 2.8 Gofynion Dwyieithog
 - 2.9 Gofynion Hygyrchedd
 - 2.10 Dull
 - 2.11 Allbynnau
 - 2.12 Ymgysylltiad Cychwynnol â'r Farchnad
- 3 Proses Caffael: Cyfnodau Allweddol
 - 3.1 Amserlen y Broses Caffael
 - 3.2 Ymgysylltiad rhagarweiniol â'r farchnad
 - 3.3 Gwahoddiad i Dendro
 - 3.4 Eglurhad
 - 3.5 Cyflwyno Tendr
 - 3.6 Amodau Cyfranogiad – Cam HCPC
 - 3.7 Gwerthuso Tendrau
 - 3.8 Dyfarniad
 - 3.9 Gweithredu Contract
- 4 Meini Prawf Camau Gwerthuso a Dyfarnu
 - 4.1 Gwiriad Cydymffurfio
 - 4.2 Holiadur Caffael Penodol Cymru (HCPC)
 - 4.3 Amod Cyfranogiad
 - 4.4 Tendrau
 - 4.5 Sgôr gyfunol derfynol
- 5 Sut Rydym yn Gweithio
 - 5.1 Yr Iaith Gymraeg
 - 5.2 Goslef
 - 5.3 Brandio
 - 5.4 Diogelu data
 - 5.5 Hygyrchedd
 - 5.6 Deddfau Cydraddoldeb a Chaethwasiaeth Fodern
 - 5.7 Hawlfraint / perchnogaeth gyfreithiol

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

- 5.8 Seiberddiogelwch
- 5.9 Defnyddio deallusrwydd artiffisial
- 5.10 Gwerth cymdeithasol
- 6 Amodau sy'n Gymwys i'r Tendr hwn
 - 6.1 Gofynion cyflwyno tendr
 - 6.2 Costau a threuliau
 - 6.3 Hawl i wrthod ymatebion cyflenwyr
 - 6.4 Prisio
 - 6.5 Diweddariadau tendr
 - 6.6 Gwrthdaro buddiannau
 - 6.7 Gwybodaeth gyfrinachol
 - 6.8 Hawlfraint
 - 6.9 Canfasio
 - 6.10 Cyflwyniadau cydgynllwynio
 - 6.11 Cyhoeddusrwydd
 - 6.12 Hawliau Gofal Cymdeithasol Cymru
 - 6.13 Tendr Anarferol o Isel
 - 6.14 Rhyddid Gwybodaeth
 - 6.15 Platfform Digidol Canolog
 - 6.16 Cyfraith Lywodraethol
- 7 Manylion Asesiad Telerau Cydweithredu

Adran 1 – Gwybodaeth Gyffredinol

1.1 Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae gwybodaeth gefndirol am y gwaith y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wneud ar ein gwefan <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/hyb-gwybodaeth-a-dysgu/amdanom>.

Mae'r sector gofal cymdeithasol yn cwmpasu llawer o feysydd a gweithgareddau, ac felly er mwyn helpu i egluro'n well beth yn union mae 'gofal cymdeithasol' yn ei olygu rydyn ni wedi creu dau fideo byr a syml -

<https://grwpgwybodaeth.gofalcymdeithasol.cymru/beth-syn-digwydd/newyddion-a-blogiau/adnoddau-fideo-newydd-adeiladu-gwell-dealltwriaeth-o-ofal-cymdeithasol-yng-nghymru>

1.2 Proses Caffael

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn bwriadu cynnal y broses gaffael hon gan ddefnyddio **Gweithdrefn Agored**, yn unol â adran 20 y Deddf Caffael 2023, Datganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS) a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) (SPPP) 2023.

1.3 Pwrpas y tendr hwn

Rydym yn chwilio am gyflenwr sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol i ddiffinio a darparu dull gweithredu sy'n cael ei arwain gan ddefnyddwyr ar gyfer datblygu Safonau Data Gweithredu Sylfaenol (MODS) ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid, nodi a blaenoriaethu achosion defnydd, a datblygu Catalog Data strwythuredig i lywio fframwaith yr Adnodd Rhyngweithredu Gofal Iechyd Cyflym (FHIR).

Bydd y contract hwn yn cael ei rannu ar draws y camau canlynol:

Cam 1: Ymgysylltu a Darganfod

Cam 2: Datblygu a Gweithredu Pellach

Noder: Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn comisiynu arbenigedd FHIR drwy gontract ar wahân. Er y bydd gan gyflenwr llwyddiannus y tendr hwn a'r arbenigwyr FHIR feysydd cyfrifoldeb penodol, bydd disgwyl iddynt gydweithio'n agos i sicrhau cysondeb rhwng datblygu'r MODS a'u mapio i fframwaith FHIR HL7. Bydd y dull gweithredu ar y cyd hwn yn sicrhau bod cydnawsedd technegol yn cael ei gynnwys o'r cychwyn cyntaf a bod y ddwy elfen waith yn symud ymlaen mewn ffordd gydlynol ac effeithlon.

1.4 Cyllideb

Cam 1 - Mae cyllideb o £250,000 (gan gynnwys unrhyw TAW perthnasol) wedi'i chytuno arni.

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

Cam 2 - Nid yw'r gyllideb wedi'i chadarnhau eto; fodd bynnag, gofynnir i gyflenwyr ddarparu prisiau dangosol er gwybodaeth yn unig.

Bydd y Cyflenwr yn darparu dadansoddiad ariannol llawn o'r costau sy'n gysylltiedig â'r prosiect i'w ystyried drwy'r broses werthuso.

Rhaid dyfynnu prisiau mewn punnoedd sterling a nodi'n glir a fydd TAW yn cael ei godi ai peidio.

1.5 Hyd y cytundeb

Cam 1 – Bydd yn rhedeg o 10 Tachwedd 2025 tan 31 Mawrth 2026, gyda phosibilrwydd o'i ymestyn i Gam 2.

Cam 2 – Os caiff ei ymestyn, bydd yn rhedeg am 12 mis arall o 1 Ebrill 2026 – 31 Mawrth 2027, hyd at gyfanswm cyfnod contract o 16.5 mis.

1.6 Monitro

Gall Gofal Cymdeithasol Cymru fonitro perfformiad y Gwasanaeth gan y Cyflenwr. Bydd y Cyflenwr, a bydd yn sicrhau bod Personél y Cyflenwr, yn cydweithredu gyda Gofal Cymdeithasol Cymru wrth gynnal y gwaith monitro heb unrhyw dâl ychwanegol i Ofal Cymdeithasol Cymru.

1.7 Consortia / Cynnig ar y Cyd

Ymateb i'r ITT hwn gan gonsortia sy'n cynnwys Cyflenwyr y Fframwaith, sydd yn cynnwys:

- Manylion llawn aelodau'r consortiwm
- Enwau'r personél sydd wedi'u neilltuo ar gyfer cyflawni'r Contract, gan gynnwys pa elfennau o'r Contract y mae aelodau / personél y consortiwm (yn ôl y digwydd) yn cael eu neilltuo i'w cyflawni.

1.8 Dogfennau ategol

Mae'r dogfennau canlynol ynghlwm wrth y Gwahoddiad i Dendro hwn (ITT)

- Atodiad 1 – Holiadur Caffael Penodol Cymru (HCPC)
- Atodiad 2 – Dogfen Ymateb Technegol / Ansawdd
- Atodiad 3 – Dogfen Ymateb Ariannol / Priso
- Atodiad 4 – Canllawiau Goslef Gofal Cymdeithasol Cymru
- Atodiad 5 – Canllawiau Brandio Gofal Cymdeithasol Cymru
- Atodiad 6 – Ffurflen y Tendr
- Atodiad 7 – Dull strategol o ymdrin â data gofal cymdeithasol yng Nghymru - Adroddiad Darganfod
- Atodiad 8 – Datganiad o Fwriad Strategol ar gyfer data gofal cymdeithasol yng Nghymru
- Atodiad 9 – [Aseiad Aeddfedrwydd Data Gofal Cymdeithasol: Adroddiad Cenedlaethol Cymru \(Argymhellion\)](#)

Adran 2 Amlinelliad o'r Prosiect

2.1 Cyflwyniad

Corff a noddur gan Lywodraeth Cymru yw Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n rheoleiddio ac yn datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol, gwella gofal a chymorth a chynyddu hyder y cyhoedd mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru. Fel rhan o'i swyddogaeth gwella, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn rheoli'r dull strategol o ymdrin â data gofal cymdeithasol yng Nghymru gyda'r bwriad o wella'r ffordd y mae gofal cymdeithasol yn gallu defnyddio'r data y mae'n ei gasglu yn fwy effeithiol yn y broses o ddarparu gofal a chymorth.

Mae gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei ddarparu mewn economi gymysg o 22 awdurdodau lleol a gwasanaethau wedi'u comisiynu sy'n cynnwys tua 1,200 o sefydliadau masnachol, trydydd sector ac nid-er-elw. Mae gofal a chymorth y rhan fwyaf o bobl yn cael eu rheoli gan awdurdodau lleol, ond mae lleiafrif sylweddol yng Nghymru hefyd yn ariannu eu gofal eu hunain neu'n rheoli eu gofal drwy daliad uniongyrchol. Mae dros 80,000 o bobl yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol ledled Cymru, sy'n golygu ei fod yn un o gyflogwyr mwyaf Cymru.

Yn Gofal Cymdeithasol Cymru, rydym yn cydnabod rôl gynyddol technoleg o ran darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r [strategaeth digidol a data ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru](#) yn mynegi awydd Llywodraeth Cymru i ddatblygu galluedd digidol a data a fydd yn helpu i gyflawni ei huchelgeisiau trawsnewid a nodir yn '[Cymru Iachach](#)'.

2.2 Y Cefndir

Rhaglen ddata a digidol allweddol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yw'r [Adnodd Data Cenedlaethol](#). Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio i ddwyn ynghyd data iechyd a gofal cymdeithasol o nifer o systemau ffynhonnell fel y gellir ei ddarparu i'r gweithwyr proffesiynol cywir ar yr adeg gywir. Mae hyn yn arwain at wneud penderfyniadau gwell a gwell gofal iechyd, a gofal a chymorth. Mae'r Adnodd Data Cenedlaethol (NDR) yn cael ei gynnal ar Google Cloud Platform ac mae wedi cael ei ddatblygu i gynnwys amrywiaeth o fanteision ychwanegol fel curadu a gwneud data ymchwil yn ddienw mewn Amgylchedd Ymchwil Dibynadwy a sicrhau bod data dienw ar gael i sefydliadau allu cynnal dadansoddeg uwch gyda'r offer a'r technolegau diweddaraf ar y Llwyfan Data a Dadansoddeg Cenedlaethol. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn bartner ffederal allweddol yn y rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol ac mae wedi ymrwymo i gyflawni nodau ac amcanion y rhaglen.

Ochr yn ochr â'r Adnodd Data Cenedlaethol, mae'r rhaglen Cysylltu Gofal. Mae'r ffrwd waith hon yn rhaglen trawsnewid digidol fawr yng Nghymru sydd wedi'i chynllunio i wella sut mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn rhannu ac yn rheoli gwybodaeth. Dros y 18 mis nesaf, bydd y rhaglen hon yn disodli'r system wybodaeth electronig WCCIS bresennol, a ddefnyddir mewn awdurdodau lleol a lleoliadau iechyd cymunedol, gyda'r genhedlaeth nesaf o systemau gwybodaeth electronig. Bydd Cysylltu Gofal hefyd yn galluogi Cofnodion Gofal Integredig sy'n dod â gwybodaeth am yr unigolyn o amrywiaeth o ffynonellau fel bod gweithwyr

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

proffesiynol yn gallu gweld y gwasanaethau y mae unigolyn yn eu derbyn a chael gafael ar wybodaeth bwysig.

Mae arweinwyr ym maes iechyd a gofal yn deall bod data yn gallu chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o wella ansawdd a chanlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae mynediad parod ac argaeledd data yn allweddol i hyn. Bydd yr Adnodd Data Cenedlaethol a Cysylltu Gofal yn ei gwneud yn haws cael gafael ar ddata iechyd a gofal cymdeithasol pobl a'u dadansoddi mewn ffordd ddiogel a moesegol. Mae gwell data yn golygu gwell penderfyniadau, ac yn ei dro gwell gofal a chymorth.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi ymrwymo i ddulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion wrth ddatblygu ein cynnyrch digidol a data. Credwn y dylai ymarferwyr gofal cymdeithasol fod wrth wraidd y datblygiadau hyn gan y byddant yn gwybod pa ddata y dylid gallu ei gludo, pryd y dylid ei rannu, a gyda phwy. Byddant hefyd yn gwybod pa ddata fyddai fwyaf buddiol ei gasglu o systemau iechyd er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwell a darparu gwell gofal a chymorth.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru eisoes yn ymgysylltu â chydweithwyr o bedair gwlad y DU gan ganolbwyntio ar safoni data gofal cymdeithasol a'r FHIR. Er ein bod yn cydnabod rhai o'r gwahaniaethau strwythurol a deddfwriaethol o ran sut mae gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu ym mhob gwlad, nod y prosiect hwn yw sicrhau bod safonau data mor gydnaws a chlodadwy â phosibl ar draws ffiniau.

Bydd cydweithwyr o wledydd eraill yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y prosiect hwn o ystyried ein huchelgais ar y cyd i greu safonau data sy'n caniatáu i ddata symud ar draws ffiniau sefydliadol a ffiniau daearyddol hefyd o bosibl.

Mae llawer o'r data sydd o fewn cwrdd y gwaith hwn eisoes yn cael ei gasglu'n ddigidol, yn bennaf gan awdurdodau lleol sy'n defnyddio systemau gwybodaeth electronig y dechreuwyd eu defnyddio ddechrau'r 2000au. Bydd y sector annibynnol yn fwy o her. Nid yw llawer o sefydliadau gofal cymdeithasol wedi'u galluogi'n ddigidol ac nid ydynt yn defnyddio adnoddau digidol i reoli eu data ar hyn o bryd. Bydd rhan o'r rhaglenni ehangach (e.e. Cysylltu Gofal a'r Adnodd Data Cenedlaethol) yn canolbwyntio ar alluogi'r sefydliadau hyn i fabwysiadu systemau digidol, gan gefnogi'r nod cyffredinol o ddata cyson, rhyngweithredol a chlodadwy ar draws iechyd a gofal yn ei gyfanrwydd.

2.3 Perthynas â Gwaith Arall

Mae cysylltiad agos rhwng y comisiwn hwn ac un arall o gontractau Gofal Cymdeithasol Cymru: *"Darparu Gwasanaeth Ymgynghori, Datblygu, Adnoddau a Hyfforddiant FHIR ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru."*

Ffocws y comisiwn hwn yw defnyddio dull sy'n cael ei arwain gan ddefnyddwyr i ddatblygu safonau data gofal cymdeithasol annhechnegol ac achosion o rannu data yng Nghymru drwy ymgysylltu ag ymarferwyr a rhanddeiliaid. Bydd y cyflenwr yn cyd-ddylunio achosion defnydd, yn nodi meysydd blaenoriaeth, ac yn llunio safonau data annhechnegol sy'n adlewyrchu anghenion y presennol ac anghenion arfaethedig y dyfodol.

Er na fydd y comisiwn hwn yn cyflawni'r allbynnau technegol yn uniongyrchol (safonau FHIR), bydd yn darparu'r sylfaen hanfodol ar gyfer y gwaith hwnnw. Bydd y

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

cyflenwr llwyddiannus yn cynhyrchu ac yn blaenoriaethu achosion defnydd, yn cynhyrchu catalog annhechnegol o'r Safonau Data Gweithredu Sylfaenol (MODS), ac yn sefydlu mecanweithiau llywodraethu i gytuno ar y rhain mewn egwyddor ar gyfer eu mabwysiadu a'u rhoi ar waith.

Bydd arbenigwyr FHIR o'r contract cysylltiedig yn defnyddio'r allbynnau hyn i drosi gofynion sy'n cael eu harwain gan y sector yn fanylebau technegol i'w cynnwys ym mhroffil Craidd FHIR Cymru fel safonau FHIR gofal cymdeithasol.

2.4 Nodau ac Amcanion

2.4.1 Nodau

Nod cyffredinol y contract hwn yw adeiladu Catalog Data sy'n cynnwys Safonau Data Gweithredu Sylfaenol (MODS) ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n cael eu harwain gan ymarferwyr, yn cael eu blaenoriaethu gan achosion defnydd, ac y cytunwyd yn genedlaethol eu bod yn addas i'w mabwysiadu gan ofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae safonau data yn caniatáu i ddata gael ei rannu'n haws gan ddefnyddio fframweithiau sy'n gallu cymryd y disgrifiadau annhechnegol hyn o ddata a'u troi'n safonau technegol sy'n galluogi systemau i gyfnewid data. Mae hyn yn galluogi mynediad at y data cywir ar yr adeg gywir gan rymuso gwell penderfyniadau, gwell gofal, a gwell canlyniadau ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Nod Cam 1 yw cynnal proses darganfod a chyd-ddylunio fanwl gyda'r sector gofal cymdeithasol i sefydlu'r arteffactau sylfaenol, y strwythurau llywodraethu a'r consensws gan randdeiliaid sydd eu hangen i ddatblygu a gweithredu MODS. Bydd y cam hwn yn cynnwys ceisio cael sefydliadau allweddol i gefnogi'r dull gweithredu, a'u bod yn fodlon ymrwymo amser staff i gymryd rhan yn y broses a chytuno mewn egwyddor i fabwysiadu safonau i'w defnyddio yn eu systemau yn y dyfodol.

Nod Cam 2 yw dod i gonsensws ar y MODS, eu datblygu ymhellach a'u rhoi ar waith. Bydd rhaid gweithio fel perchennog cynnyrch gydag arbenigwyr technegol i ddatblygu'r Catalog Data yn safonau FHIR, gan sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n llawn y diffiniad annhechnegol y cytunwyd arno fel safon FHIR, a'u bod yn gallu cael eu hintegreiddio'n llawn i seilwaith data cenedlaethol a'r NDR. Bydd y cam hwn yn delio â mwy o safonau, gan ddilyn prosesau llywodraethu sefydledig a luniwyd yng ngham un ac yn caniatáu amserlenni hirach i gael consensws neu gytundeb ar unrhyw safonau anodd neu ddadleuol.

2.4.2 Amcanion

Amcanion y contract hwn yw darparu seilwaith data wedi'i gyd-gynhyrchu sy'n seiliedig ar safonau ar gyfer gofal cymdeithasol sydd yn:

- Nodi a blaenoriaethu achosion defnydd uchel eu gwerth ar gyfer rhannu data.
- Diffinio a safoni elfennau data allweddol ar draws meysydd oedolion, plant a'r gweithlu.
- Cysoni data gofal cymdeithasol â fframweithiau rhyngweithredu yr NDR a FHIR.

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

- Ymgorffori llywodraethu moesegol yn ogystal â pherchnogaeth sector gynaliadwy.
- Cefnogi ymarferwyr rheng flaen a darparu ar gyfer llywio a defnyddio data'n effeithiol.

Dyma amcanion Cam 1:

- Ymgysylltu â darparwyr gofal cymdeithasol ledled Cymru i ddeall enghreifftiau presennol o rannu data a datblygu'r potensial ar gyfer mwy o rannu gwybodaeth ar draws ffiniau sefydliadol.
- Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu prosesau cyfranogol ystyrion ar gyfer sicrhau bod safonau'n cael eu cynllunio ar gyfer yr ystod o weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol ar draws y sector yng Nghymru, a'u bod yn gynhwysol ohonynt.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu proses gadarn i ystyried, i drafod ac i ddod i gonsensws ar safonau data y gellir eu cynnwys yn y Safonau Data Gweithredu Sylfaenol ar gyfer gofal cymdeithasol.
- Creu Datganiad o Fwriad sy'n caniatáu i sefydliadau gofal cymdeithasol ymrwymo i'r gwaith o ddatblygu, darparu a mabwysiadu dull safonol o ymdrin â data gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Datblygu strwythur llywodraethu cryf, gan gynnwys prosesau angenrheidiol ar gyfer uwchgyfeirio, datrys anghytundebau a gwneud penderfyniadau terfynol, gan sicrhau bod yr holl asiantaethau priodol yn cael eu cynrychioli, e.e. ADSS Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru ac ati.
- Gweithio'n agos â thîm cyfathrebu Gofal Cymdeithasol Cymru i greu cynnwys ac adnoddau i annog cyfranogiad yn y prosiect, ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid am y cynnydd.
- Gweithio gydag arbenigwyr FHIR i sicrhau bod elfennau data sylfaenol (e.e. data demograffig) sydd eisoes yn rhan o broffil Craidd R4 FHIR y DU (Cymru) yn gallu cael eu hystyried i'w mabwysiadu ym mhroffiliau gwledydd eraill y DU. Efallai y bydd y rhain yn gofyn am egluro cysyniadau technegol mewn iaith syml i sicrhau bod safonau annhechnegol yn cael eu trosi'n llwyddiannus i safon FHIR.
- Creu Catalog Data ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n cynnwys yr elfennau data sydd wedi'u safoni a'u cymeradwyo i'w cynnwys drwy'r broses ymgynghori a chonsensws fel y disgrifir uchod.

Dyma amcanion Cam 2:

- Creu a chyflwyno cynllun ar gyfer parhad a chwblhau Cam 1 drwy ddatblygu'r Catalog Data i gynnwys yr holl safonau sydd eu hangen i gyflawni'r Safon Data Gweithredu Sylfaenol (MODS) ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

- Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau bod ein Catalog Data arfaethedig yn cynnwys holl anghenion defnyddwyr ar draws y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ardystio yr ymgynghorwyd ag ystod eang o ddarparwyr, proffesiynau ac arbenigwyr pwnc i greu MODS a fydd yn gwasanaethu anghenion rhannu data'r sector nawr ac i'r dyfodol posibl.
- Sicrhau bod rhannau o'r sector sy'n anodd eu cyrraedd; proffesiynau, mathau o rolau, darparwyr, rhanddeiliaid ac ati, wedi cael eu hannog i gymryd rhan ac i ymgysylltu â ni wrth ddatblygu'r MODS. Sicrhau nad yw unrhyw rannau o'r sector gofal cymdeithasol yn cael eu hystyried yn llai ffafriol nag eraill.
- Delio â meysydd dadleuol, lle mae gwahaniaethau wedi golygu nad oes cytundeb eto. Defnyddio'r holl brosesau yn y strwythur llywodraethu i sicrhau ein bod yn gallu mabwysiadu safonau y bernir eu bod yn angenrheidiol yn ystod y broses ddarganfod.
- Gweithio gydag arbenigwyr FHIR i sicrhau bod modd datblygu'r MODS sydd wedi'u ffurfio'n llawn o fewn Fframwaith FHIR Cymru, gan weithio gyda phartneriaid ar draws pedair gwlad y DU (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) i gynnal cymaint o gydnawsedd trawsffiniol â phosibl.
- Gweithio gyda chyflenwyr Systemau Gwybodaeth Electronig (EIS) ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru i sicrhau bod eu cynnyrch yn gallu mabwysiadu a chefnogi'r MODS a Safonau FHIR.

2.5 Beth sydd ei angen / 'Y Gofynion' – Cam 1

Ar gyfer Cam 1 y contract hwn, rydym yn ceisio comisiynu cyflenwr sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol i gynnal asesiad cynhwysfawr o'r data sy'n cael ei rannu ar hyn o bryd ar draws y sector gofal cymdeithasol.

Drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid allweddol, bydd y gwaith yn cynnwys darganfod a nodi anghenion data nawr ac i'r dyfodol, a datblygu catalog setiau data safonol. Bydd y safonau'n cael eu trafod, eu profi a'u dilysu'n drylwyr gyda rhanddeiliaid i gael consensws ar yr ystyr a'r diffiniad cyn eu hysgrifennu yn y catalog fel safon y cytunwyd arni.

Bydd y cyflenwr wedyn yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a'r arbenigwyr FHIR a gomisiynwyd ar wahân i gofnodi'r canlyniadau fel MODS ar gyfer plant, oedolion a'r gweithlu gofal cymdeithasol, a chynnwys y rhain ar fframwaith FHIR.

2.5.1 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Darganfod

- Ymgysylltu'n eang ac yn gynhwysol â rhanddeiliaid gofal cymdeithasol gan gynnwys ymarferwyr rheng flaen, rheolwyr gwasanaethau, arbenigwyr data a chyrff cynrychioliadol ledled Cymru i nodi pa ddata sy'n cael ei gasglu, ei ddefnyddio a'i rannu ar hyn o bryd ar draws y sector gofal cymdeithasol.
- Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cefnogi'r cyflenwr llwyddiannus i nodi sampl gynrychioliadol o sefydliadau ar draws sector gofal cymdeithasol Cymru.

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

- Deall sut mae'r data hwn yn cael ei ddefnyddio, gan bwy ac at ba ddiben.
- Archwilio pa ddata y gallai fod ei angen yn y dyfodol i fodloni blaenoriaethau sy'n esblygu yn y sector a gofynion polisi.
- Canfod bylchau, anghysondebau neu ormodedd yn y dirwedd ddata bresennol.
- Cofnodi'r heriau presennol o ran rhannu data a nodi rhwystrau i dechnoleg, llywodraethu neu allu.
- Cynhyrchu personâu rhanddeiliaid a dadansoddiad o heriau, disgwyliadau ac anghenion data.
- Sicrhau bod yr ymgysylltu'n cynnwys lleoliadau amrywiol e.e. gwledig/trefol, siaradwyr Cymraeg/Saesneg, y sectorau cyhoeddus/preifat/gwirfoddol.
- Hwyluso ymgysylltu mewn ffordd gynhwysol, annhechnegol, sy'n agnostig o ran systemau ac sy'n canolbwyntio ar anghenion ymarferwyr.
- Cynhyrchu adroddiad cryno ar ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys:
 - Rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â nhw;
 - Dulliau ymgysylltu a ddefnyddiwyd;
 - Themâu allweddol, anghenion, pwyntiau pryder a blaenoriaethau a nodwyd;
 - Arsylwadau ar amrywiadau yn y defnydd o ddata ar draws gwahanol leoliadau;
 - Adborth ar arferion casglu/rhannu data cyfredol;
 - Gwybodaeth am barodrwydd a'r gallu i gymryd rhan mewn safoni yn y dyfodol.
- Gwerthuso prosesau presennol i gynnal ac i ddiweddarau safonau fel Bwrdd Safonau Gwybodeg Cymru (WISB), yr Awdurdod Safonau Cofnodion Proffesiynol (PRSB), Interweave (Humber a Gogledd-ddwyrain Lloegr), MODS GIG Lloegr ac ystyried sut y gellid eu defnyddio neu eu haddasu ar gyfer safonau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

2.5.2 Nodi Achosion Defnydd o Rannu Data ar Draws Ffiniau

- Mapio enghreifftiau cyfredol lle mae data'n cael ei rannu rhwng unrhyw un o'r sefydliadau canlynol:
 - Awdurdodau lleol
 - Darparwyr gofal rheoleiddiedig
 - Gwasanaethau iechyd (GIG)
 - Gwasanaethau iechyd (Preifat)
 - Mudiadau trydydd sector sy'n darparu gofal neu gymorth i ofalwyr
 - Mudiadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol (VCSE)

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

- Adrannau llywodraeth ganolog neu reoleiddwyr
- Sefydliadau nodedig eraill nad ydynt wedi'u cynnwys uchod
- Deall diben, manteision a heriau pob achos defnydd, yn ogystal â'r mecanweithiau presennol ar gyfer rhannu.
- Deall y potensial presennol i sefydliadau allu derbyn data drwy gyfnewid data electronig, e.e. Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i gartrefi gofal preswyl.
- Archwilio senarios posibl neu ddisgwyliedig yn y dyfodol lle bydd angen rhannu data'n well, fel:
 - Cofnodion gofal integredig a rheoli iechyd y boblogaeth;
 - Timau aml-asiantaeth (e.e. tai, addysg, cyfiawnder troseddol ac ati);
 - Gwasanaethau cyhoeddus di-dor;
 - Dyfeisiau clyfar, Rhyngrwyd Pethau, technolegau cynorthwyol ac ati;
- Datblygu Cofrestr o Achosion Defnydd, i gynnwys eitemau fel;
 - Teitl a disgrifiad
 - Pwrpas ac amcan
 - Y rhanddeiliaid sy'n cymryd rhan
 - Ystyriaethau cyfreithiol (defnydd teg, sail gyfreithiol ac ati)
 - Safonau data neu ofynion o ran y gallu i ryngweithredu
 - Amllder, fformat a dulliau cyfnewid
 - Manteision a risgiau ymddangosiadol (gyda mesurau lliniaru)
 - Statws presennol
 - Dolenni i unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol neu fentrau strategol
 - Dyddiad diweddaru diwethaf
 - Pwynt cyswllt neu berchennog
- Bydd y cyflenwr llwyddiannus yn gweithio gyda rhanddeiliaid i bennu'r angen i rannu'r data ar gyfer pob achos defnydd (boed yn achos cyfredol neu arfaethedig), gan ddarparu archeb neu flaenoriaethu yn ei dro.

2.5.3 Datblygu Dulliau Cyfranogol Ystyrlon a Strwythur Llywodraethu Cadarn

- Gweithio'n unol ag egwyddorion dylunio cyfranogol sy'n canolbwyntio ar bobl.
- Cydweithio â Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu proses ddylunio ar gyfer safonau data sydd yn:
 - Cynhwysol

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

- Bod yn Dryloyw
- Cynaliadwy
- Dealladwy
- Canolbwyntio ar ganlyniadau
- Datblygu a chefnogi prosesau llywodraethu cryf ac effeithiol ar gyfer safonau data mewn gofal cymdeithasol.
- Sicrhau bod gan lywodraethu arweinyddiaeth glir a llinellau atebolrwydd amlwg.
- Datblygu proses lywodraethu swyddogaethol sy'n galluogi:
 - Datblygu safonau'n effeithlon ac yn effeithiol
 - Y gallu i fynd i'r afael â diffyg consensws neu anghytundeb
 - Prosesau ar gyfer cyflafareddu a gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch:
 - Safonau unigol neu setiau o safonau
 - Dewisiadau iaith
 - Unrhyw fater arall sy'n gofyn am gytundeb y sector i fwrw ymlaen â'r prosiect

2.5.4 Datblygu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu i'r Prosiect

- Datblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cynhwysfawr i'r prosiect.
- Cyflawni'r cynllun ar y cyd â thîm Marchnata a Chyfathrebu Gofal Cymdeithasol Cymru.
- Sicrhau bod y cynllun yn cynnwys cyfathrebu rheolaidd drwy gydol y prosiect.
- Mae mabwysiadu'r safon yn wirfoddol ac felly dylai'r cyflenwr llwyddiannus ddylunio cyfathrebiadau rheolaidd i berswadio sefydliadau i lofnodi'r Datganiad o Fwriad, gan hybu defnydd ar draws gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Dylunio cyfathrebiadau i:
 - Cynnwys amrywiaeth eang o gyfranogwyr er mwyn cynyddu'r nifer sy'n ymrwmo'n gynnar
 - Rhoi gwybodaeth gywir ac uniongyrchol i bobl
 - Meithrin ymddiriedaeth drwy sianeli adborth sefydledig a chyfathrebu dwyffordd
 - Darparu lle canolog ar gyfer gwybodaeth ychwanegol i unigolion sydd â diddordeb
 - Dangos tryloywder a bod yn agored yn y gwaith

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

2.5.5 Cynhyrchu Datganiad o Fwriad

- Gweithio gyda'r holl bartïon perthnasol i gydgyhyrchu Datganiad o Fwriad.
- Sicrhau bod y Datganiad o Fwriad yn glir, yn canolbwyntio ar fuddion, ac yn hawdd i sefydliadau ymrwymo iddo.
- Defnyddiwch y Datganiad o Fwriad i wneud y canlynol:
 - Dangos ei fod yn cyd-fynd yn strategol â phwrrpas y prosiect
 - Gosod y naws ar gyfer cydweithio a gweithio ar y cyd
 - Cryfhau hyder partneriaethau a rhanddeiliaid o ran sicrhau canlyniadau ystyrlon ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
 - Sefydlu nodau, amcanion a disgwyliadau
 - Gweithredu fel cyfrwng i hybu mabwysiadu ei egwyddorion yn ehangach
 - Caniatáu i ddarparwyr a sefydliadau gofal cymdeithasol ymrwymo i'r egwyddorion hyn gan gytuno mewn egwyddor i weithio gyda'u cyflenwyr Systemau Gwybodaeth Electronig i fabwysiadu'r MODS yn eu datrysiadau digidol sy'n cefnogi gofal cymdeithasol.

2.5.6 Datblygu Prototeip Catalog Data

- Gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i gydgyhyrchu prototeip Catalog Data wedi'i strwythuro a'i flaenoriaethu yn unol ag arferion gorau'r diwydiant.
- Nodi'r holl elfennau data y bwriedir eu cynnwys mewn Safon Data Gweithredu Sylfaenol (MODS) yn y dyfodol ar gyfer:
 - Gofal cymdeithasol i oedolion
 - Gofal cymdeithasol i blant
 - Y gweithlu gofal cymdeithasol
 - Cofnod Gofal Integredig (gofynion data ar gyfer gofal cymdeithasol)
- Sicrhau bod y Catalog Data yn:
 - Digon cadarn i gefnogi trosi technegol
 - Clir, yn ddealladwy ac yn hygyrch i'w ddosbarthu a'i adolygu ar draws y sector
- Strwythuro'r catalog mewn ffordd sy'n golygu:
 - Ei fod ar gael mewn fformat digidol ac ar gael ar-lein i unrhyw randdeiliad fel dogfen ddarllenadwy sy'n cydymffurfio â safonau WCAG 2.2 AA.
 - Bod modd i unigolion penodol ei olygu ar-lein.

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

- Ei fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac wedi'i wirio i sicrhau bod eu diffiniadau'n ddiamwys ac yn cyd-fynd yn llwyr.
- Bod modd dosbarthu safonau unigol ar gyfer adborth
- Bod casglu safonau'n creu'r Catalog Data llawn

2.5.7 Mapio FHIR a Chydweithio ag Arbenigwyr FHIR

- Gweithio mewn cydweithrediad agos â'n harbenigwyr FHIR mewnol ac wedi'u comisiynu i fapio pob elfen ddata MODS berthnasol i'r adnoddau a'r proffiliau FHIR HL7 priodol.
- Sicrhau bod y MODS:
 - Yn gydnaws â FHIR ac yn cyd-fynd ag arferion cyfnewid data iechyd sefydledig.
 - Yn cynnwys digon o fanylion i'w trosi'n safon dechnegol ym Mhroffil FHIR Craidd Cymru.
 - Cydweithio â thîm FHIR i nodi ac i aildddefnyddio safonau presennol Fframwaith Craidd y DU sy'n ymwneud â'r canlynol:
 - Data demograffig am bobl
 - Disgrifyddion o lefydd a gwasanaethau
- Sicrhau bod rhanddeiliaid yn mynd ati i ystyried safonau cyffredinol presennol er mwyn osgoi dyblygu.
- Noder: Ni fydd y cyflenwr yn gyfrifol am ddatblygu proffiliau FHIR y gellir eu cyhoeddi neu eu cynnal - arbenigwyr FHIR fydd yn gwneud hyn.

2.5.8 Arbenigedd Dylunio sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr

- Rhaid i'r cyflenwr llwyddiannus ddangos profiad o ddylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, dylunio cyfranogol, neu brosesau dylunio sy'n canolbwyntio ar bobl, yn enwedig ym maes ymchwil defnyddwyr, datblygu personâu, dylunio gwasanaethau, ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn meithrin gallu mewnol mewn dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ond nid oes ganddo ddigon o adnoddau mewnol ar hyn o bryd i arwain y gwaith hwn yn annibynnol.
- Disgwyllir i'r cyflenwr llwyddiannus ddod â'r sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol i sicrhau bod siwrneiau defnyddwyr a phwyntiau pryder yn cael eu mapio'n gywir a bod allbynnau'n adlewyrchu anghenion rheng flaen y byd go iawn.
- Lle bo'n briodol, dylai'r cyflenwr llwyddiannus ddefnyddio enghreifftiau a gwybodaeth o'i waith dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ei hun gan addasu'r rhain i gyd-destun gofal cymdeithasol Cymru.

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

- Disgwylir cydweithio â rhanddeiliaid drwy gydol y broses ddylunio i gysoni allbynnau â blaenoriaethau sefydliadol a sicrhau eu bod yn berthnasol yn ymarferol

2.5.9 Adrodd

- Darparu dau adroddiad allweddol i sicrhau bod y MODS a'r seilwaith rhannu data ehangach yn ymarferol, bod modd eu gweithredu a'u defnyddio ym maes gofal cymdeithasol rheng flaen:
 - Adroddiad Cryno Cam 1 - Yn canolbwyntio ar sut mae modd rhannu data yn haws a'i gwneud hi'n haws i staff rheng flaen ddod o hyd iddo, wedi'i gefnogi gan astudiaethau achos ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
 - Adroddiad Parodrwydd Cam 2 – Gwerthuso gallu'r sector, yr heriau a'r galluogwyr i fabwysiadu'r MODS ac arferion rhannu data trawsffiniol.
- Rhaid darparu'r adroddiadau terfynol yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar draul y cyflenwr.

2.6 Beth sydd ei angen / 'Y Gofynion' – Cam 2

Bydd Cam 2 yn amodol ar gyllid, ar gwblhau Cam 1 yn llwyddiannus ac ar y cytundeb i ymestyn y contract.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn bwriadu defnyddio'r cyflenwr llwyddiannus o'r tendr hwn i ymgymryd â Cham 2, yn amodol ar negodi a chytuno ar y costau terfynol.

Nid yw'r gyllideb wedi'i chadarnhau eto ar gyfer Cam 2, fodd bynnag, gofynnir i gyflenwyr ddarparu prisiau dangosol yn eu cais er gwybodaeth yn unig.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadw'r hawl i:

- Ceisio eglurhad neu fireinio'r costau dangosol ar gyfer Cam 2;
- Ail-negodi cwmphas a'r prisiau ar gyfer Cam 2, yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd yng Ngham 1;
- Ail-dendro Cam 2 yn gyfan gwbl neu'n rhannol os nad ystyrir bod y costau terfynol yn deg, yn gymesur nac yn cyd-fynd ag egwyddorion y gyllideb a chaffael.

Yn ystod Cam 2, bydd gofyn i'r cyflenwr llwyddiannus wneud y canlynol:

- Creu a chyflwyno cynllun manwl ar gyfer parhad a chwblhau Cam 1, gan gynnwys datblygu'r Catalog Data i gynnwys yr holl safonau sydd eu hangen i gwblhau'r Safon Data Gweithredu Sylfaenol (MODS) ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Datblygu cynigion amlinellol ar gyfer pensaernïaeth yn unol â gofynion y sector a'r bensaernïaeth Adnodd Data Cenedlaethol sefydledig. Bydd capasiti technegol ar gael i helpu'r cyflenwr llwyddiannus ar sail ymgynghorol

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

- Cydweithio'n agos â Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau bod y Catalog Data arfaethedig yn adlewyrchu anghenion yr holl grwpiau defnyddwyr ar draws y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan sicrhau yr ymgynghorir ag ystod eang o ddarparwyr, proffesiynau ac arbenigwyr pwnc a'u bod yn cymryd rhan yn y broses ddatblygu.
- Cynllunio a darparu gweithgareddau ymgysylltu wedi'u targedu i hybu cyfranogiad gan rannau o'r sector sy'n anodd eu cyrraedd neu sy'n cael eu cynrychioli llai (gan gynnwys proffesiynau penodol, mathau o rolau, darparwyr a rhanddeiliaid), gan sicrhau nad oes unrhyw ran o'r sector dan anfantais nac yn cael ei hanwybyddu wrth ddatblygu'r MODS.
- Mynd i'r afael â meysydd lle na chafwyd consensws drwy gymhwyso'r holl brosesau y cytunwyd arnynt o fewn y strwythur llywodraethu, gan sicrhau bod y safonau angenrheidiol a nodwyd yn ystod y cyfnod darganfod yn cael eu mabwysiadu mewn modd tryloyw y cytunwyd arno.
- Gweithio gyda'r arbenigwyr FHIR sydd wedi'u penodi ar wahân i sicrhau bod y MODS sydd wedi'u datblygu'n llawn yn gydnaws â Fframwaith FHIR Cymru, a chydweithio â phartneriaid ar draws pedair gwlad y DU i gynyddu rhwyngweithredu trawsffiniol.
- Cysylltu â chyflenwyr Systemau Gwybodaeth Electronig (EIS) a ddefnyddir ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru i sicrhau bod eu cynnyrch yn gallu mabwysiadu a chefnogi'r MODS a'r safonau FHIR perthnasol.

2.7 Gofynion Digidol, Data a Thechnoleg

Rhaid i'r cyflenwr llwyddiannus allu dangos:

- profiad eang o arwain newid ar raddfa fawr ym maes digidol, data a thechnoleg;
- arbenigedd a phrofiad o arwain gwaith ymgysylltu a darganfod yn gyflym ar draws amgylchedd cymhleth;
- profiad cryf o safonau data a'r gallu i ryngweithredu;
- profiad o ddylunio sy'n canolbwyntio ar bobl;
- y gallu i gyfleu cysyniadau cymhleth mewn iaith syml;
- dealltwriaeth gref o safonau data a'r gallu i ryngweithredu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cyfeirio at y cyd-destun polisi yng Nghymru;
- dealltwriaeth o'r safonau technegol presennol ym maes iechyd a gofal (SNOMED CT, FHIR, PRSB ac ati);
- profiad amlwg o weithio mewn amgylcheddau sy'n cael eu rheoleiddio;
- bod yn gyfarwydd â fframweithiau ansawdd data a phrosesau sicrwydd;
- y gallu i gefnogi'r prosiect o ran modelu data, terminoleg a rheoli metadata.

2.8 Gofynion Dwyieithog

Rhaid i'r holl allbynnau cymeradwy terfynol, gan gynnwys yr holl offer casglu data, y gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu allanol (ee offer recriwtio) a'r adroddiadau terfynol,

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gost y Cyflenwr, yn unol â'r safonau a amlinellir yn adran 5.1.

Rhaid i gyflenwyr gostio am wasanaethau cyfieithu yn eu hymateb ariannol – Atodiad 3.

2.9 Gofynion Hygyrchedd

Rhaid i'r cyflenwr llwyddiannus sicrhau bod unrhyw gynnwys sy'n cael ei rannu â rhanddeiliaid fel rhan o'r broses ymgysylltu yn diwallu anghenion hygyrchedd y gynulleidfa.

Mae hyn yn cynnwys (ymhlith pethau eraill):

- Sleidiau sy'n addas i ddarllenwyr sgrin
- Defnyddio testun amgen ar gyfer delweddau a graffeg
- Dewis ffontiau clir a lliwiau cyferbyniol
- Defnyddio iaith glir a syml mewn elfennau gweledol a chlywedol
- Capsiynau neu drawsgrifiadau ar gyfer fideos
- Sesiynau ymgysylltu sy'n briodol i ddefnyddwyr iaith Arwyddion Prydain

Rhaid i'r holl allbynnau gydymffurfio â safonau WCAG 2.2 AA.

2.10 Dull

Dylid rhoi sylw i hyn yn y cynnig. Rhaid i gyflenwyr amlinellu'r rhesymau dros ddethol y fethodoleg o'u dewis a sut mae hyn yn bodloni gofynion y fanyleb hon yn eu hymateb i'r adran ansawdd.

2.11 Allbynnau

2.11.1 Cam 1

Bydd y cyflenwr llwyddiannus yn:

1. Cynhyrchu adroddiad cryno ar ymgysylltu â rhanddeiliaid
2. Datblygu Cofrestr Achosion Defnydd
3. Datblygu proses llywodraethu prosiect ymarferol
4. Datblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cynhwysfawr i'r prosiect
5. Cynhyrchu Datganiad o Fwriad
6. Cyd-gynhyrchu prototeip Catalog Data sydd wedi'i strwythuro a'i flaenoriaethu
7. Cynhyrchu cam datblygu cyntaf y Safonau Data Gweithredu Sylfaenol (MODS) ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion, gofal cymdeithasol i blant, y gweithlu gofal cymdeithasol a Chofnod Gofal Integredig²
8. Cydweithio ag arbenigwyr FHIR i fapio pob elfen ddata MODS berthnasol i'r adnoddau a'r proffiliau FHIR HL7 priodol.
9. Llunio adroddiad cryno Cam 1
10. Llunio adroddiad parodrwydd Cam 2

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

2.11.2 Cam 2:

Bydd y cyflenwyr llwyddiannus yn:

1. Datblygu cynllun cyflawni ar gyfer cam nesaf gweithredu safonau data ar draws gofal cymdeithasol yng Nghymru
2. Parhau i ymgysylltu â phartneriaid gofal cymdeithasol yn y sector annibynnol ehangach i ddeall eu gofynion data a'u galluedd digidol i hwyluso trosglwyddo data electronig, gan sicrhau bod darparwyr a phroffesiynau anodd eu cyrraedd yn cael eu cynnwys yn ein gwaith ar ddatblygu safonau data.
3. Cydweithio â darparwyr systemau gofal cymdeithasol yng Nghymru i ddatblygu cynlluniau i fabwysiadu safonau MODS a FHIR yn eu datrysiadau digidol.
4. Cynhyrchu Safonau Data Gweithredu Sylfaenol (MODS) terfynol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion a phlant y cytunir arnynt ac a gymeradwyir gan bartneriaid gofal cymdeithasol allweddol gan gynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

2.12 Ymgysylltu Rhagarweiniol â'r Farchnad

Cyn cyhoeddi'r Hysbysiad Tendro, gwnaethpwyd rhywfaint o waith ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad mewn perthynas â'r gofyniad hwn, sef:

ID Hysbysiad GwerthwchiGymru UK2 - AUG533466

Sesiwn 1 - cyfarfod o bell ar MS Teams am 15:00 ddydd Llun 11 Awst 2025

Sesiwn 2 - cyfarfod o bell ar MS Teams am 09:30 ddydd Iau 14 Awst 2025

O ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad, rydym wedi mireinio'r fanyleb hon gan wneud mân addasiadau i sicrhau bod yr holl feysydd ymholi a nodwyd yn ystod y broses ymgysylltu yn cael sylw llawn. Cafodd yr addasiadau hyn eu hymgorffori i wella eglurder, i ddileu amwysedd, ac i sicrhau bod y gofynion mor gyflawn, manwl a gweithredadwy â phosibl i ddarpar gyflenwyr.

Adran 3 – Proses Gaffael: Camau Allweddol

Er mwyn sicrhau bod pob Cyflenwr yn cael ystyriaeth gyfartal a theg, mae'n hanfodol bod ymatebion yn cael eu darparu yn y fformat a'r drefn benodedig. Dylai cyflenwyr ddilyn yr holl gyfarwyddiadau yn ofalus a chynnwys yr holl wybodaeth y gofynnir amdani.

Os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch yr hyn sy'n ofynnol neu anhawster wrth ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, dylai Cyflenwyr gyfeirio at y broses egluro a amlinellir yn Adran 3.4, a cheisio arweiniad yn unol â hynny.

3.1 Amserlen y Broses Gaffael

Dyma'r amserlen arfaethedig ar gyfer y broses gaffael:

	Carreg filltir	Dyddiad
1	Cyhoeddi Hysbysiad Tendr a Dogfennau Tendr ar GwerthwchiGymru	9 Medi 2025
2	Porth Eglurhad Yn Fyw ar Gwerthwch i Gymru	17:00, 26 Medi 2025
3	Dyddiad Cau Cyflwyno Tendr	12:00 hanner dydd, 7 Hydref 2025
4	Asesiad o HCPC	7 Hydref 2025
5	Gwerthusiad Tendr Rhanddeiliaid Unigol	7-10 Hydref 2025
6	Gwerthusiad Tendr Consensws Rhanddeiliaid	16 Hydref 2025
7	Dewis Cyflenwr a Ffefrir, Adrodd Mewnol / Cymeradwyo	20 – 29 Hydref 2025
8	Hysbysu Cyflenwyr, a Chyhoeddi Crynodebau Asesu Cyflenwyr	29 Hydref 2025
9	Cyhoeddi Hysbysiad Dyfarnu Contract (CAN) drwy GwerthwchiGymru	29 Hydref 2025
10	Cyfnod Segur	29 Hydref – 6 Tachwedd 2025
11	Cyhoeddi Hysbysiad Manylion Contract ar GwerthwchiGymru	7 Tachwedd 2025
12	Gweithredu'r Contract	10 Tachwedd 2025

Noder bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadw'r hawl, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, i ddiwygio'r amserlen neu ymestyn unrhyw gyfnod mewn cysylltiad â'r broses gaffael. Bydd pob Cyflenwr yn cael gwybod ar yr un pryd am unrhyw newidiadau i'r amserlen.

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

3.2 Gwahoddiad i Dendro

Cyhoeddir Hysbysiad Tendr a dogfennau Tendr cysylltiedig drwy GwerthwchiGymru. Rhaid i Gyflenwyr sydd â Diddordeb gyflwyno ymateb electronig i'r holl ddogfennau Tendr angenrheidiol yn unol â'r gofynion a amlinellir yn adran 3.5.

Os bydd unrhyw broblemau gyda'r system, llinell gymorth dechnegol Gwerthwch i Gymru yw 0800 222 9004.

3.3 Eglurhad

Cyhoeddir y Tendr hwn ar sail gyfartal i bob Cyflenwr. Ni fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cymryd rhan mewn trafodaeth unigol ynghylch y Gofynion, ac eithrio mewn ymateb i ymholiadau eglurhad cyffredinol.

Rhaid cyflwyno pob cais am eglurhad neu wybodaeth ychwanegol drwy'r porth Cwestiynau ac Atebion ar GwerthwchiGymru. Bydd y porth yn fyw rhwng y dyddiadau a amlinellir yn amserlen y broses gaffael (3.1). Ni chaniateir codi unrhyw eglurhadau pellach ar ôl dyddiad cau'r porth.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymdrechu i ateb pob cwestiwn cyn gynted â phosibl, ond ni all warantu amser ymateb penodol.

Noder y bydd pob cwestiwn a gyflwynir drwy'r porth C&A ar GwerthwchiGymru yn cael ei ystyried yn ansensitif yn fasnachol. Yn unol â swyddogaeth y system, bydd ymatebion yn cael eu cyhoeddi'n ddienw ar y porth a byddant ar gael i bob parti sydd â diddordeb.

Os yw Cyflenwr yn credu bod cais am eglurhad yn cynnwys gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol, neu y gallai roi mantais gystadleuol i Gyflenwyr eraill, dylid cyflwyno'r ymholiad yn uniongyrchol i procurement@socialcare.wales wedi'i farcio'n glir fel 'Yn Gyfrinachol – Ni Ddylid ei Ddosbarthu i Gyflenwyr Eraill'. Rhaid i'r Cyflenwr ddarparu rhesymeg dros ofyn am beidio â datgelu.

Os bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn penderfynu nad yw'r wybodaeth yn rhesymol gymwys fel un sy'n sensitif yn fasnachol, bydd y Cyflenwr yn cael gwybod. Yna gall y Cyflenwr ddewis naill ai:

- Tynnu'r ymholiad yn ôl, neu
- Ailgyflwyno'r eglurhad drwy'r porth C&A ar Gwerthwch2Gymru.

Pan fydd Cyflenwr yn nodi bod gwybodaeth yn fasnachol sensitif, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymdrechu i gadw cyfrinachedd. Fodd bynnag, dylai cyflenwr nodi, hyn yn oed pan nodir bod gwybodaeth yn sensitif yn fasnachol, efallai y bydd yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru ddatgelu gwybodaeth o'r fath yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("FOIA") neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ("EIR") (gweler paragraff 6.14 isod (Rhyddid Gwybodaeth) am fanylion pellach), ei ofynion tryloywder yn unol â Deddf Caffael 2023 (fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd) a/neu'r Gaffael (Cymru) Rheoliadau 2024 (fel y'u diwygiwyd); a pholisïau tryloywder eraill y sector cyhoeddus.

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

3.4 Cyflwyno Tendir

3.4a Dyddiad Cau Cyflwyno Tendir

Rhaid i gyflenwyr ddarparu ymateb Tendir electronig drwy gyflwyno cynnig llawn drwy GwerthwchiGymru erbyn y dyddiad cau a amlinellir yn amserlen y broses gaffael (3.1)

Mae cynnig llawn yn cynnwys cwblhau a chyflwyno:

1. Atodiad 1 – HCPC
2. Atodiad 2 – Ymateb Ansawdd
3. Atodiad 3 – Ymateb Ariannol
4. Atodiad 6 – Ffurflen y Tendir

3.4b Proses Cyflwyno Tendir

Rhaid i gyflenwyr gyflwyno eu hymateb Tendir yn unol â'r canllawiau canlynol.

Fformat Cyflwyno::

- Rhaid darparu cyflwyniadau yn uniongyrchol o fewn y Templedi Atodiad (1, 2, 3 & 6).
- Rhaid darparu cyflwyniadau yn fformatau presennol y templed (Word & Excel – nid PDF)
- Peidiwch â chyflwyno deunyddiau marchnata neu hyrwyddol cyffredinol, CVs llawn nac unrhyw ddogfennau nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i'r tendr.
- Peidiwch ag atodi dogfennau ychwanegol (oni ofynnir yn benodol amdanynt o fewn y Cwestiwn Ansawdd), gan na fyddant yn cael eu derbyn na'u sgorio
- Mae'n ofynnol i bob cyflenwr gadw'n gaeth at uchafswm nifer y geiriau a nodir yn y Meini Prawf Gwerthuso (4.1).
- Ni fydd unrhyw gwybodaeth a ddarperir dros y terfynau gwaith a ddatganwyd yn cael ei hystyried
- Mae nifer y geiriau yn cynnwys **yr holl destun**, heblaw am tablau yn y testun, diagramau, graffigwaith, dyfyniadau ac unrhyw droednodiadau a ychwanegir yn uniongyrchol ym maes yr ymateb, teitlau, penawdau a phwyntiau bwled.
- Mae'n rhaid i gyflenwyr nodi nifer y geiriau yn glir ar ddiwedd pob ymateb (e.e., "Nifer y geiriau: 489/500").
- Mae'n rhaid dim ond darparu cyflwyniadau yn electronig trwy GwerthwchiGymru. Ni dderbynnir copïau caled.

Iaith:

- Gellir cyflwyno cynigion tendr **yn y Gymraeg neu yn Saesneg**.

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

Cyfrifoldeb y Cyflenwr:

- Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i roi disgrifiad cywir o'r gofynion a nodir yn yr ITT hwn, mae Cyflenwyr yn gyfrifol am eu casgliadau eu hunain ynghylch y dulliau a'r adnoddau sydd eu hangen i fodloni'r gofynion hyn.
- Ni ddylai cyflenwyr gymryd yn ganiataol bod gan Gofal Cymdeithasol Cymru wybodaeth flaenorol am eu sefydliad neu ddarpariaeth gwasanaeth, hyd yn oed os ydynt wedi gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru o'r blaen ar gontractau cyfredol neu flaenorol.
- Bydd gwerthusiadau'n seiliedig yn unig ar y wybodaeth a ddarperir yn ymateb Tendir y Cyflenwr.

3.5 Amodau Cyfranogiad – Cam Holiadur Caffael Penodol Cymru (HCPC)

Fel rhan o'u cyflwyniad Tendir, rhaid i Gyflenwyr gwblhau Holiadur Caffael Penodol Cymru (HCPC). Holiadur cyn-gymhwyso safonol yw'r HCPS sy'n gosod yr Amodau Cyfranogiad y mae'n rhaid i Gyflenwyr eu bodloni er mwyn bod yn gymwys i gymryd rhan yn y broses gaffael.

Yn dilyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Tendrau, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn asesu ymatebion yr HCPC.

Bydd methu â bodloni unrhyw un o'r amodau gorfodol a/neu cwestiynau Pasio/Methu o fewn yr HCPC yn arwain at Tendir y Cyflenwr yn cael ei eithrio rhag cyfranogiad bellach yn y broses gaffael.

3.6 Gwerthuso Tendrau

Bydd cyflenwyr sy'n llwyddo i basio cam yr HCPC yn symud ymlaen i'r cam gwerthuso Tendrau, a fydd yn cael ei gynnal gan banel gwerthuso dynodedig. Bydd y panel hwn yn cynnwys o leiaf dri aelod, a ddewisir fesul achos i sicrhau bod eu rolau a'u harbenigedd yn berthnasol i ofynion penodol y contract. Gall aelodau'r panel ddod o fewn a thu allan i Gofal Cymdeithasol Cymru.

3.6a Gwerthusiad Rhanddeiliaid Unigol

Bydd pob rhanddeiliad yn adolygu'r holl dendrau a gyflwynir yn annibynnol yn seiliedig ar y meini prawf gwerthuso wedi'u diffinio ymlaen llaw (gweler adran 4). Bydd y broses hon yn sicrhau bod pob rhanddeiliad yn cael cyfle i asesu pob cynnig o'u persbectif nhw, gan ystyried ffactorau technegol, ariannol a strategol perthnasol. Bydd yr asesiadau unigol wedyn yn cael eu llunio ar gyfer trafodaeth a chonsensws pellach.

3.6b Cyfarfod Gwerthuso Consensws Rhanddeiliaid

Yn dilyn y gwerthusiadau unigol, cynhelir cyfarfod consensws grŵp i drafod ac alinio asesiadau unigol yr holl rhanddeiliaid. Nod y cyfarfod hwn yw dod i gonsensws ar safle cyffredinol y tendrau, gan sicrhau bod pob persbectif yn cael ei ystyried, a bod y gwerthusiad terfynol yn deg ac yn gytbwys. Bydd y broses gydweithredol hon yn sicrhau tryloywder ac ystyriaeth gyfartal i bob Cyflenwr.

Gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg neu yn Saesneg

3.7 Dyfarniad

3.7a Crynodebau o'r Asesiadau

Unwaith y bydd Cyflenwr buddugol wedi'i nodi, bydd pob Cyflenwr a gyflwynodd Dendr yn cael gwybod am ganlyniad y tendr drwy Grynoded o Asesiad. Bydd pob Crynodeb o Asesiad yn darparu gwybodaeth i alluogi pob Cyflenwr i ddeall pam roedd ei gyflwyniad Tendr unigol naill ai'n llwyddiannus neu'n aflwyddiannus. Bydd cyflenwyr aflwyddiannus yn derbyn adborth ar eu sgôr yn erbyn pob maen prawf dyfarnu a'r rhesymau pam na roddwyd y sgôr uniongyrchol uwch i'r tendr (ac eithrio lle y cyflawnwyd y sgôr uchaf) ynghyd â'u sgôr cyfanswm cyffredinol.

Bydd Cyflenwyr aflwyddiannus hefyd yn derbyn gwybodaeth am eu Tendr a aseswyd (i'r graddau yr aseswyd eu tendr) yn ogystal â gwybodaeth am sut sgoriodd y MAT yn erbyn y meini prawf dyfarnu perthnasol.

Bydd Crynodebau o'r Asesiad yn cael eu darparu ar yr un pryd i bob Cyflenwr.

3.7b Hysbysiad Dyfarnu Contract (CAN)

Unwaith y bydd Cyflenwr buddugol wedi'i nodi, bydd Hysbysiad Dyfarnu Contract (CAN) hefyd yn cael ei gyhoeddi ar GwerthwchiGymru. Bydd y CAN yn darparu gwybodaeth i'r farchnad **cyn** dyfarnu contract a dim ond ar ôl i'r Tendrwyr sy'n cymryd rhan gael eu crynodebau asesu. Bydd cyhoeddi'r CAN yn cychwyn y cyfnod segur.

3.7c Cyfnod Segur

Unwaith y bydd Cyflenwr a ffefrir wedi'i nodi, bydd cyfnod segur o wyth diwrnod gwaith yn cael ei weithredu gan ddechrau gyda'r diwrnod y cyhoeddir CAN mewn perthynas â'r contract. Mae'r cyfnod segur yn rhoi cyfle i unrhyw Gyflenwr godi pryderon neu ofyn am eglurhad pellach cyn dyfarnu'r contract terfynol. Mae hwn yn gyfnod gorfodol i sicrhau tegwch a thryloywder yn y broses.

3.8 Gweithredu Contract

Ar ddiwedd y cyfnod segur ac ar ôl mynd i'r afael ag unrhyw eglurhad neu heriau angenrheidiol, bydd y contract yn cael ei ddyfarnu'n swyddogol. Cyhoeddir Hysbysiad Manylion Contract ar GwerthwchiGymru, a bydd pob Cyflenwr sy'n cymryd rhan yn cael gwybod yn unol â hynny. Unwaith y bydd dyfarniad y contract wedi'i gadarnhau, bydd y Cyflenwr yn dechrau'r broses o weithredu'r contract. Bydd y cam hwn yn cynnwys cyfarfod cychwynnol a fydd yn caniatáu i reolwyr contract / arweinwyr prosiect gyfarfod a dechrau darparu gwasanaethau fel yr amlinellir yn y contract. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Cyflenwr yn cydweithio i sicrhau cychwyn contract llyfn ac amserol.

Adran 4 – Meini Prawf Camau Gwerthuso a Dyfarnu

4.1 Gwiriad Cydymffurfiaeth

Ar ôl derbyn tendrau, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnal gwiriad cydymffurfio cyffredinol i sicrhau bod y tendrau'n cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau neu'r gofynion gweithdrefnol a nodir yn yr Hysbysiad Tendr a/neu ddogfennau caffael cysylltiedig. Gall Gofal Cymdeithasol Cymru benderfynu nad yw tendrau sy'n methu â chydymffurfio â'r cyfarwyddiadau neu'r gofynion gweithdrefnol yn cydymffurfio, ac felly cânt eu gwrthod.

Gall Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd anwybyddu ymateb Tendr sy'n cynnwys:

